**COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANFAIR A GYNHALIWYD YN Y NEUADD GOFFA, LLANFAIR AM 7.30 O'R GLOCH 09.01.19**

**YMDDIHEURIADAU**
Cyng. Eurig Hughes (Cadeirydd), Russell Sharp (Is Gadeirydd), Gerallt Jones, Caerwyn Roberts.

**PRESENNOL**
Cyng. Dylan Hughes, David J. Roberts, Robert G. Owen, Mair Thomas, a'r Cyng. Annwen Hughes (Cyngor Gwynedd).

Yn absenoldeb y Cadeirydd ar Is-Gadeirydd cymerwyd y Gadair gan y Cyng. Dylan Hughes.

**COFNODION**
Derbyniwyd cofnodion o gyfarfod Tachwedd 29ain 2018 fel rhai cywir.

**MATERION YN CODI**
**Cynllun Cyllideb**
Dosbarthwyd copiau o'r uchod yn dangos y gwahaniaethau yn y gwariant a oedd wedi cael ei wneud i fyny hyd at y 31ain o Ragfyr 2018 ers dechrau Ebrill 2018 a beth oedd wedi cael ei glustnodi yn y cynllun cyllideb hyd at diwedd mis Rhagfyr i bob aelod oedd yn bresennol. Adroddwyd bod £18,859.46 wedi cael ei wario ers cychwyn y flwyddyn ariannol newydd a bod hyn yn £3,344.14 o wariant yn llai na oedd wedi cael ei glustnodi yn y gyllideb am y flwyddyn. 'Roedd hyn oherwydd bod y costau o dorri gwair y llwybrau cyhoeddus ddim gymaint a beth oedd wedi ei glustnodi (wedi clustnodi £1,200 ar gwariant yn £815), nid oedd costau'r fynwent wedi bod gymaint (£1,335 wedi ei glustnodi hyd yma ar gwariant yn £580), ddim gymaint o gyfraniadau wedi cael eu talu (£500 wedi ei glustnodi ar gwariant yn £150). Adroddodd y Clerc/Trysorydd bod angen rhoi biniau halen i lawr yn y cynllun o hyn ymlaen am bod y Cyngor wedi cytuno i'r ymrwymiad i gadw y biniau halen gyda Cyngor Gwynedd a chytunwyd clustnodi £300 ar gyfer y 7 bin halen sydd yn yr ardal a dod a swm sydd wedi ei glustnodi i gynnal a chadw i lawr o £1,500 i £1,200.

**Cyllideb y Cyngor am 2019/20**
Dosbarthodd y Trysorydd gopiau o gyfrifon y Cyngor i fyny at y 31ain o Ragfyr 2018 i bob aelod er mwyn iddynt gael gweld beth oedd y sefyllfa ariannol. Fe gafwyd trafodaeth ynlgyn ar mater uchod a penderfynwyd fod amcangyfrif o'r gwariant canlynol gan y Cyngor am y flwyddyn ariannol nesa - insiwrant y Cyngor £450, cyflog y Clerc £1,520, costau y Clerc £300, treth ar gyflog y Clerc £380, Cyfrifydd y Clerc £192, cyfraniadau £1,000, pwyllgor neuadd goffa £1,000, Hamdden Harlech ac Ardudwy £8,023.90, torri gwair y mynwentydd £2,000, torri gwair y llwybrau £1,200, costau y fynwent £1,500, Un Llais Cymru £100, Dwr Cymru £40, biniau halen £300, cynnal a chadw £1,200, amrywiol £1,000, llogi ystafell bwyllgor £150, partnerieth toiledau £4,000, archwilwyr £600

**Precept y Cyngor am y flwyddyn 2019/20**
Fe dderbyniwyd llythyr gan Gyngor Gwynedd ynglyn ar mater uchod. Ar ol trafod y gyllideb a rhagweld beth fyddai gwariant y Cyngor am y flwyddyn ariannol nesa, penderfynwyd cadw y precept ar £13,000.

**Panel Cyfrifiad Annibynnol**
Adroddodd y Clerc bod yn rhaid arwyddo ffurflen gan bob Cynghorydd ynglyn ar uchod eto eleni. Mae angen rhestru bob rheol sydd yn cael ei mabwysiadu yn cofnodion y Cyngor ag os bydd rheol taliadau ar gyfer costau yn cael ei mabwysiadu bydd angen i'r Cynghorwyr sydd DDIM am hawlio costau arwyddo ffurflen yn datgan hyn. Ar ol trafodaeth cytunwyd i fabwysiadu y rheol taliadau ar gyfer costau eto eleni ac arwyddwyd datganiad gan bob Aelod oedd yn bresennol eu bod ddim an hawlio costau.

**Polisi Asesiad Risc y Cyngor**
Dosbarthwyd copiau o'r uchod i bob aelod a oedd yn bresennol a gafodd bob eitem a oedd arno ei drafod arwahan. Penderfynwyd mabwysiadu y polisi hwn am y flwyddyn 2019/20. Penderfynwyd mabwysiadu yr un polisi asesiad risg ariannol ag o'r blaen trwy fonitro y taliadau fydd yn cael eu gwneud gan y Cyngor ag hefyd gofyn am ddau bris o leiaf os bydd yn bosib pan yn anfon tenderau allan os yw yr amcan gost yn mynd i fod yn fwy na £1,000. Cytunwyd i ychwanegu y biniau halen i'r polosi hwn.

399......EWH......Cadeirydd

**Hamdden Harlech ac Ardudwy**
Adroddodd y Clerc ei bod ddim cyfarfod o'r uchod wedi cael ei gynnal ers cyfarfod diwethaf y Cyngor a bydd y cyfarfod nesa yn cael ei gynnal ar nos Iau Ionawr 17eg.

**CEISIADAU CYNLLUNIO**
Ddim wedi dod i mewn ers cyfarfod diwethaf y Cyngor.

**Ceisiadau Cynllunio a penderfyniad arnynt**
Ddim wedi dod i law ers y cyfarfod diwethaf.

**ADRODDIAD Y TRYSORYDD**
Adroddodd y Trysorydd bod £6,431.46 yn y cyfrif rhedegol, a £5,504.54 yn y cyfrif cadw.

**Taliadau ers y cyfarfod diwethaf**

| | | |
|---|---|---|
| Cyllid a Thollad - | £95.00 | – treth cyflog y Clerc |
| Greenbarnes | - £733.15 - | hysbysfwrdd newydd |
| Mrs W. Wigglesworth | - £33.00 | – bin borwn y fynwent gyhoeddus |

**Derbyniadau ers y cyfarfod diwethaf**

| | | |
|---|---|---|
| Mr. M. Downey | - £40.00 | - rhent cwt yr hers (Rhagfyr) |
| Cyngor Gwynedd | - £476.00 | - ad-daliad am dorri gwair y llwybrau cyhoeddus |
| Cyngor Gwynedd | - £740.18 | - ad-daliad incwm maes parcio Llandanwg |
| Mr. M. Downey | - £40.00 | - rhent cwt yr hers (Ionawr) |

Adroddodd y Trysorydd bod y Cyngor wedi dan wario £3,344.14 ers cychwyn y flwyddyn ariannol hon hyd at y 31ain o Ragfyr 2018 ag er bod hyn yn edrych yn swm sylweddol, 'roedd yn rhagweld byddai £9,842.04 yn cael ei gario drosodd ar y 31ain o Fawrth 2019 a bod hyn yn swm sylweddol ei gario drosodd (gweler adroddiad y cynllun cyllideb). Rhaid cofio hefyd bydd o leiaf £2,088.15 o wariant angen ei wneud erbyn diwedd Mawrth 2019 a ddim ond £120 o rent cwt yr hers ag ad-daliad T.A.W. o £174.19 oedd i ddod i mewn (ar hyn o byrd) ag byddai gan y Cyngor wariant sylweddol i'w wneud yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf 2019/20 oherwydd bod £8,023.90 wedi cael ei glustnodi ar gyfer Hamdden Harlech ac Ardudwy a £4,000 wedi cael ei glustnodi i Gyngor Gwynedd fel cyfraniad y Cyngor i gadw y toiled cyhoeddus yn agored yn gwneud cyfanswm o £12,023.90 heb gynnwys ddim gwariant arall fyddai y Cyngor yn ei wneud. Felly wrth gofio y byddai hwyrach £9,842.04 yn cael ei gario drosodd a bod y precept yn aros ar £13,000 (£9,842.04 + £13,000 = £22,842.04) hwyrach bydd y Cyngor yn iawn gyda'i gwariant am y flwyddyn ariannol 2019/20. Bydd yr Aelodau yn gallu gweld y rhagolygon ariannol am y flwyddyn i ddod yn well diwedd Mawrth 2019.

Adroddodd y Trysorydd ymhellach ei bod wedi gofyn i Ms Luned Fon Jones o Adran Cyllid, Cyngor Gwynedd a fyddai yn fodlon gweithredu fel Archwiliwr Mewnol y Cyngor eto eleni ag ei bod wedi cytno i hyn. Cytunodd yr Aelodau i hyn ag hefyd cytunwyd bod y Clerc yn anfon llythyr o apwyntiad iddi.

**GOHEBIAETH**
**Llywodraeth Cymru**
Wedi derbyn llythyr gan yr uchod yn hysbysu y Cyngor mae y swm priodol o dan Adran 137(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, Gwariant Adran 137 y Terfyn ar gyfer 2019/20 fydd £8.12 yr etholwr. Adroddodd y Clerc y rhif o diweddaraf o etholwyr sydd genni yw 347 ag felly mae gan y Cyngor hawl i gyfranu hyd at £2,817.64 i gyrff allanol.

**Cyngor Gwynedd – Adran Cefnogaeth Corfforaethol**
Wedi derbyn e-bost gan yr Adran uchod ynglyn ar cynllun partneriaeth toiledau cyhoeddus sydd yn bodoli rhwng y Cynghorau Cymuned a Chyngor Gwynedd ag yn gofyn a fyddai y Cyngor yn fodlon, ac er mwyn cael sefydlogrwydd a threfniadau effeithlon, fynd i gytundebu am ddwy flynedd (2019-20 a 2020-21), ond byddai y cyfraniadau'n cael eu talu flwyddyn ar y tro. Cytunwyd i ymrwymo i'r cynllun hwn am ddwy flynedd.

.....................................Cadeirydd

**Theatr y Ddraig, Bermo**

Wedi derbyn e-bost gan yr uchod yn gofyn am gyfraniad ariannol gan y Cyngor ag yn amlinellu eu bod wedi gofyn I Gyngor Tref Bermo am 30% o'r costau rhedeg, ag yn gobeithio am 30% gan weddill y dalgylch. Felly drwy dorri'r cyfraniadau I lawr rhwng Cynghorau y dalgylch ar sail faint poblogaeth pob Cyngor, maen't yn gofyn i Harlech, Dyffryn Ardudwy a Dolgellau am £1,050 yr un, a Llanfair, Llanbedr a Llanelltyd am £450 yr un, i wneud cyfanswm o £4,500 i ddod fyny at yr un cyfanswm a Chyngor Tref Bermo. Cytunwyd I beidio a rhoi cyfraniad ariannol I'r uchod oherwydd bod gan y Cyngor ddigon o wariant eu hunain angen ei wneud heb ddechrau cyfranu I gadw safleoedd tu allan I'r ardal yn agored.

**UNRHYW FATER ARALL**

Cafwyd wybod gan y Cyng. Mair Thomas bod yr arwydd "Araf/Slow" wedi cael ei bentio ar y ffordd cyn cyrraedd y maes parcio yn Llandanwg.

Cafwyd wybod gan y Cyng. Mair Thomas ei bod wedi derbyn cwyn bod un o'r seddi yn maes parcio y maes yn Llandanwg angen sylw. Cytunwyd bod rhai yn mynd i edrych ar y sedd hon i weld beth sydd angen ei wneud iddi.

Cafwyd wybod gan y Cyng. Mair Thomas bod angen gwaith ger y "manhole" gyferbyn ar toiledau yn maes parcio Y Maes, Llandanwg.

Gofynnwyd a fyddai yn bosib ymestyn y llinellau melyn dwbwl sydd wedi eu peintio ar ochor y ffordd yn bellach i lawr y ffordd am y maes parcio yn Llandanwg oherwydd lle maen't wedi cael eu gorffen newydd fynd dros y bont mewn lle peryg.

Angen torri y coed o top rhiw Cae Cethin i lawr at giat mynedfa Cae Cethin oherwydd eu bod yn dod i'r llwybr a hwn yn lwybr sydd ar y daith sustrance 8.

Eisiau gwybod pwy sydd yn gosod y maint y taliadau yn y meusydd parcio oherwydd bod gymaint o amrywiaeth gyda'r tal mewn meusydd parcio ar draws y Sir.

Y Llwybr cyhoeddus rhwng Ffridd a Dinas angen sylw a cytunwyd bod y Clerc yn cysylltu gyda Liz Haynes.

**Dyddiad Cyfarfod Nesa**

**Penderfynwyd cynnal cyfarfod nesa y Cyngor ar nos Fercher 27ain Chwefror 2019 am 7.00 o'r gloch**

**ARWYDDWYD**...........................................................Cadeirydd

**DYDDIAD**............27/2/19...........................................